Adran Gwaith a Phensiynau

# Sut i wneud cais am **Daliad Annibyniaeth Personol (PIP)**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **PIP2WER** 03/23

# Cynnwys


1

PIP

**Cyflwyniad**

Tudalen 4


2




**Gwneud cais**

Tudalen 6

3



**Gwneud cais dros y ffôn**

Tudalen 9

4



**Cwestiynau rydym yn gofyn ar y ffurflen**

Tudalen 13

# Cynnwys


5



**Ar ôl i chi anfon y ffurflen atom**

Tudalen 15

6



**Mathau eraill o gymorth**

Tudalen 19

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae Taliad Annibyniaeth Personol yn fudd-dal gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Mae'n helpu gyda rhai o'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i chi eu talu pan fydd gennych afiechyd tymor hir neu anabledd.

PIP

Weithiau gelwir Taliad Annibyniaeth Personol yn PIP.



Gall PIP eich helpu i fod yn fwy egnïol a gwneud mwy ar eich pen eich hun.



Mae’r daflen hon yn dweud wrthych **sut i wneud cais** am PIP.

Am fwy o daflenni Hawdd i’w Darllen ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read PIP**.

# 2 Gwneud Cais




Os credwch y gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol, dylech wneud cais.

Adran Gwaith a Phensiynau

Rydych chi'n gwneud hyn trwy gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau.



I wneud cais am PIP, ffoniwch ni am ddim ar:

Ffôn: **0800 917 2222**

Ffôn testun: **0800 917 7777**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK i wneud eich cais:

**18001** yna **0800 917 2222**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.

Am fwy o wybodaeth, ewch i
[www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/sut-i-wneud-cais](http://www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip/sut-i-wneud-cais)




Gallwch hefyd wneud cais trwy'r post.

I hawlio trwy'r post, gallwch ysgrifennu llythyr atom yn gofyn am y ffurflen.



Ein cyfeiriad yw:

Personal Independence Payment
New Claims
Post Handling Site B
Wolverhampton
WV99 1AH


3

## Gwneud cais dros y ffôn



Os oes angen cymorth arnoch i'n ffonio, gallwch ofyn i:

- Aelod o'r teulu neu ffrind
- Rhywun sy'n eich helpu chi
- Gofalwr neu weithiwr cymorth.



Os bydd rhywun yn siarad ar eich rhan, rhaid i chi fod gyda nhw.

Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd yn rhaid i ni anfon ffurflen gais atoch i'w llenwi yn lle gwneud cais dros y ffôn.




Os nad oes gennych unrhyw un i'ch helpu i'n ffonio ni, dylech ffonio beth bynnag.

Byddwn yn rhoi cymorth i chi i yn ystod eich galwad.

# Yn ystod yr alwad ffôn


**15**
**munud**

Mae'r alwad am ddim o'ch llinell ddaear neu ffôn symudol a bydd yn para tua 15 munud.




Yn ystod yr alwad, byddwn yn gofyn am ychydig fanylion personol, fel:

- Eich rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un
- Manylion eich gweithiwr iechyd neu ofal
- Eich manylion banc.



Efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau am eich cyflwr iechyd neu anabledd yn ystod yr alwad.





Dywedwch wrthym yn ystod yr alwad a oes angen ffurflen arnoch mewn fformat fel braille, print bras neu CD sain.

## Ar ôl yr alwad ffôn




Ar ôl yr alwad ffôn, byddwn yn anfon llythyr a ffurflen atoch sef **Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch**.




Byddwn hefyd yn anfon **llyfryn gwybodaeth** atoch i'ch helpu i lenwi'r ffurflen.

**2**
**wythnos**

Gall gymryd hyd at bythefnos i’r ffurflen a’r llyfryn gwybodaeth ddod atoch.



Defnyddiwch yr amser hwn i gasglu gwybodaeth i gefnogi’ch cais.



Anfonwch y wybodaeth hon atom gyda’ch ffurflen.

I gael mwy o wybodaeth am lenwi’r ffurflen, ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

Chwiliwch am **Supporting information for PIP**.

4

# Cwestiynau rydym yn gofyn ar y ffurflen



Mae’r ffurflen yn gofyn cwestiynau am:

- Pa mor dda y gallwch  wneud gweithgareddau bob dydd
- A allwch symud o gwmpas ar eich pen eich hun neu a oes angen cymorth arnoch.



Rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch.

Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch.




Defnyddiwch y llyfryn gwybodaeth i’ch helpu i lenwi’r ffurflen.

Cyngor ar Bopeth

Mae gan Gyngor ar Bopeth ganllaw ar eu gwefan i'ch helpu i lenwi'r ffurflen.

I ddod o hyd i wybodaeth pellach am lenwi'r ffurflen, ewch i www.citizensadvice.org.uk/cymraeg

Chwiliwch am **Help gyda'ch cais PIP**.




Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen a'i hanfon atom erbyn y dyddiad a ddangosir ar y llythyr.

Mae'r dyddiad hwn yn yr adran sy'n dweud **Beth rydym am i chi ei wneud.**

**1 mis**

Mae gennych fis i lenwi'ch ffurflen a'i hanfon atom.

Os oes angen mwy o amser arnoch i lenwi'r ffurflen, rhowch wybod i ni.

# 5 Ar ôl i chi anfon y ffurflen atom



Bydd angen i'r mwyafrif o bobl gael cyfarfod, sy'n cael ei alw'n asesiad.

Bydd hyn fel arfer yn cymryd 1 awr.



Byddwn yn edrych ar eich ffurflen a'ch holl wybodaeth ategol.



Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu **pa fath** o asesiad sydd ei angen arnoch.

**PIP**

Efallai na fydd angen cyfarfod (neu asesiad) arnoch os yw'n **amlwg y gallwch, neu na allwch, gael Taliad Annibyniaeth Personol** .





Os byddwn yn gofyn ichi gael cyfarfod, rhaid i chi fod yn bresennol.



Yn y cyfarfod, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn siarad â chi am eich anghenion o ddydd i ddydd.



Ar ôl yr asesiad, byddwn yn edrych ar yr holl wybodaeth sydd gennym ac yn gwneud penderfyniad ar eich cais.




Yna byddwn yn anfon llythyr atoch.




Bydd y llythyr hwn yn dweud wrthych a allwch, neu na allwch, gael PIP.




Os gallwch gael PIP, bydd y llythyr yn dweud wrthych y swm y byddwch yn ei gael.

**6**
**wythnos**

Fel rheol anfonir y llythyr atoch cyn pen 6 wythnos ar ôl eich asesiad.

# 6 Mathau eraill o gymorth

Efallai y byddwch yn gallu cael Credyd Cynhwysol os:

- Rydych allan o waith
- Rydych mewn gwaith ac ar enillion isel.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Universal Credit**.




Gall Credyd Cynhwysol eich helpu hefyd gyda rhai costau tai.

Bydd rhai pobl angen gwneud cais am Fudd-dal Tai o hyd yn lle Credyd Cynhwysol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/budd-dal-tai




Efallai y gallwch gael help gyda Threth Cyngor.



Efallai y gallwch gael grant Mynediad at Waith.



Gall grant Mynediad at Waith eich helpu i dalu am newidiadau sydd angen yn eich gweithle i'ch helpu i wneud eich swydd.


Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Mynediad at Waith, ewch i www.gov.uk

Chwiliwch am **Easy Read Access to Work**.



Os bydd rhywun yn gofalu amdanoch, efallai y gallant gael Lwfans Gofalwr.

I gael mwy o wybodaeth am Lwfans Gofalwr, ewch i www.gov.uk/lwfans-gofalwr




Os oes gennych broblemau ariannol, gallwch gysylltu â'ch:

- Swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol
- Swyddfa Cyngor leol
- Grwpiau help a chymorth lleol.

Am fwy o wybodaeth am Daliad Annibyniaeth Personol, ewch i www.gov.uk/taliad-annibyniaeth-personol-pip

I gael mwy o wybodaeth am y budd-daliadau, efallai y gallwch wneud cais amdanynt, ewch i www.gov.uk/browse/disabilities

I ddod o hyd i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol, ewch i find-your-nearest-jobcentre.dwp.gov.uk

I ddod o hyd i'ch swyddfa cyngor lleol neu grwpiau help a chymorth, ewch i www.gov.uk/find-local-council

Am help gyda phroblemau arian, ewch i www.moneyhelper.org.uk/cy